Templedi Cynllun Gofal a Chefnogi Rhan 6 a Chynllun Llwybr

Adroddiad i'r Panel Rhiant Corfforaethol – 7 Rhagfyr 2021

Pwrpas

Er gwybodaeth ac i'r panel ei nodi.

Cefndir

Cynghorwyd y Panel Rhiant Corfforaethol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod cyfarfod mis Mehefin y byddai gwaith yn cael ei wneud i adolygu'r templedi o fewn WCCIS, a ystyrir yn drwsgl gan ymarferwyr ac, yn bwysicaf oll, yn anodd eu dilyn ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

Gan ystyried yr adborth negyddol a gafwyd o ran y Cynllun Gofal a Chefnogi Rhan 6 a'r Cynllun Llwybr, gofynnodd y Panel am i'r adolygiad o'r ddwy ddogfen honno gymryd blaenoriaeth.

Cafodd y templedi gwreiddiol eu dylunio gan Lywodraeth Cymru ac addasiad o'r templedi gwreiddiol hynny yw'r templedi sy'n cael eu cyflwyno heddiw.

Diweddariad

Mae'r templedi diwygiedig sydd wedi eu hatodi wedi eu drafftio, eu hymgynghori arnynt a'u diwygio yn ystod yr wythnosau diwethaf ac wedi eu cefnogi.

Mae'r Cynllun Gofal a Chefnogi wedi'i leihau o 43 i 15 tudalen tra bo'r Cynllun Llwybr wedi'i leihau o 25 i 9 tudalen, tra'n parhau i gynnal gofynion Llywodraeth Cymru. Cyflawnwyd hyn drwy ddiddymu unrhyw ddyblygu, ac roedd llawer ohono, a thacluso cyffredinol i drefn y templedi.

Bydd y tîm WCCIS yn dechrau ar y gwaith yn Ionawr 2022 ac yn edrych i integreiddio'n llawn o fewn WCCIS erbyn diwedd Ionawr 2022.

Saul Ainsworth

(Rheolwr Gwasanaeth Interim)